# Y System Rheoli Amgylcheddol
# 8.1.10 Anghenion a Disgwyliadau gan Gontractwyr

Cyhoeddwyd: 06 Hydref 2021

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Hayley Beharrell, Emily Ingram, Fiona Wheatley, Teifion Maddocks, Ben Sampson |
| **Cymeradwywyd gan:** | Heidi Smith |
| **Dyddiad Adolygu:** | 06 Hydref 21 |
| **Cyfeirnod y cymal:** | ISO 14001(2015): 8.1 |
| **PEIDIWCH AG ARGRAFFU'R WEITHDREFN HON ONI BAI FOD YN RHAID** | |



# Anghenion a Disgwyliadau gan Gontractwyr

## 1 Rhagarweiniad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl weithgareddau sy'n cael eu cyflawni ar ei safleoedd yn cael eu cyflawni i'r safonau uchaf posib o ran diogelwch, iechyd ac amgylchedd.

Mae Prifysgol Abertawe yn gweithredu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ISO 14001:2015 achrededig sy'n berthnasol i'r holl safleoedd a'r holl weithgareddau ar y safleoedd hynny, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â chontractwyr. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymagwedd y Brifysgol at gynaliadwyedd yn cynnwys:

- Polisi Cynaliadwyedd
- Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng yr Hinsawdd 2021-2025
- Amcanion a Thargedau Cynaliadwyedd

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i **bob contractiwr** sy'n cymryd rhan yng ngweithrediadau Prifysgol Abertawe.

Rhaid i'r holl gontractwyr sy'n gweithio ar y safle sicrhau bod eu gweithrediadau'n cyd-fynd â gweithdrefnau'r Brifysgol. Os oes gennych chi gwestiynau, neu os ydych chi'n ansicr am unrhyw beth yn y ddogfen hon, siaradwch â'ch rheolwr neu'ch Swyddog Prosiect perthnasol.

## 2 Diffiniadau

**Staff wedi'u contractio:** Unrhyw un sy'n gweithio i'r contractiwr, gan gynnwys staff wedi'u his-gontractio.

**Contractwr:** Rhywun sy'n cael ei benodi i wneud gwaith ar safle'r Brifysgol, a gall hefyd gynnwys cyflenwyr a phobl eraill a benodwyd i wneud gwaith gwasanaethu, cynnal a chadw neu osod.

**Goruchwyliwr safle:** Aelod o dîm y contractiwr sy'n gyfrifol am waith cysylltiedig.

## 3 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| **Goruchwylwyr safle** | • Nodi risgiau amgylcheddol a gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'ch maes chi a gweithredu cynllun gwaith sy'n rheoli'r risgiau hynny'n ddigonol<br>• Hyfforddi a sefydlu staff ar eu cyfrifoldebau amgylcheddol a gweithdrefnau gweithredu perthnasol<br>• Cydymffurfio â gweithdrefnau'r Brifysgol mewn perthynas â lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd<br>• Sicrhau bod y cynlluniau argyfwng priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol |

| | |
|---|---|
| | • Adrodd am ddigwyddiadau amgylcheddol a fu bron digwydd a digwyddiadau eraill wrth y Brifysgol<br>• Rhoi camau cywiriol ac ataliol priodol ar waith yn dilyn digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron digwydd<br>• Archwilio'r holl bryderon amgylcheddol perthnasol; adrodd am y risgiau posib ac adrodd yn rhagweithiol ar fesurau i liniaru agweddau amgylcheddol (gweithgareddau dan arweiniad y Brifysgol neu gontractwyr) |
| **Yr holl staff a gontractiwyd** | • Bod yn gyfarwydd â'r gofynion a amlinellwyd yn yr holl weithdrefnau amgylcheddol sy'n berthnasol i'w gweithgareddau a chydymffurfio â nhw<br>• Cynnal yr holl weithgareddau yn unol â gofynion amgylcheddol a amlinellwyd yn y ddeddfwriaeth berthnasol a Pholisi Cynaliadwyedd y Brifysgol a'i system rheoli amgylcheddol (EMS), er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd.<br>• Adrodd am yr holl ddigwyddiadau amgylcheddol wrth eich goruchwylydd safle a'ch cynrychiolydd prifysgol. |

# 4 Gofynion

Mae Prifysgol Abertawe yn disgwyl i gontractwyr a chyflenwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol a gofynion amgylcheddol lleol sydd wedi'u hamlinellu yn yr EMS.

Mae manylion am ofynion allweddol yn y rhannau canlynol, fel y maent wedi'u crynhoi yn Tabl 1. Os nad ydych chi'n gallu cyrchu unrhyw un o'r dogfennau yn y golofn 'Gwybodaeth Ychwanegol' neu os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd (Rhan 6).

**Tabl 1: Disgwyliad contractwyr**

| Disgwyliad | Adran | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|
| Lleihau'r defnydd o ddŵr a chydymffurfio â'r holl ganiatâd carthffrwd fasnachol perthnasol. Sicrhau bod pawb yn ymwybodol o gynllun draenio'r safle | 4.1 | 8.1.12 Golchi Cerbydau OPC<br>8.1.19 Gollyngiadau i Ddraen<br>8.1.08 Rheoli ynni a dŵr |
| Sicrhau bod yr holl olewon, cemegion a thanwyddau wedi'u storio mewn ffordd sy'n atal risgiau i staff a'r amgylchedd | 4.2 | 8.1.03 Ymateb i Arllwysiadau Allanol |
| Sicrhau bod yr holl bartïon wedi rhoi gweithdrefn ymateb i arllwysiadau ar waith, | 4.3 | 8.1.04 Gweithdrefn Sgipiau a Chyfnewid Sgipiau |

| Disgwyliad | Adran | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|
| yn unol â Threfniadau Ymateb i Arllwysiadau'r Brifysgol | | |
| Gwaredu deunyddiau gwastraff ac nad ydynt yn cael eu defnyddio yn unol â'r hierarchaeth gwastraff (fel a bennwyd yng Nghynllun Rheoli Gwastraff y Brifysgol) ac fel a amlinellwyd yn nhrefniadau'r contract | 4.4 | 8.1.04 Sgipiau a chyfnewid sgipiau |
| Sicrhau defnydd effeithiol o ynni ar y safle | 4.5 | 8.1.08 Rheoli ynni a dŵr |
| Lleihau allyriadau i aer wrth fod ar y safle | 4.6 | 8.1.6 Allyriadau Aer<br>TGN001 Sylweddau sy'n Niweidiol i'r Osôn<br>TGN003 Nwy wedi'i fflworineiddio |
| Sicrhau y caiff  meini prawf y Polisi Caffael Cynaliadwy  eu hystyried wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. | 4.7 | Ein Hamgylchedd Gwaith - Caffael |
| Gwarchod cynefinoedd a bywyd gwyllt lleol wrth wneud gweithgareddau adeiladu, adnewyddu neu gynnal a chadw. | 4.8 | 8.1.07  Clymog Japan/rhywogaethau ymledol[1]<br>8.1.15 Rheoli coed a llwyni ar y campws[1]<br>TGN 006 Trwyddedau Rhywogaeth a Warchodir - Ystadau a Rheoli Cyfleusterau<br>Awgrymiadau Euraid: Gwylanod ar y campws |
| Sicrhau bod yr holl staff yn smygu/smygu e-sigaréts mewn ardaloedd dynodedig yn unig | 4.9 | |
| Sicrhau bod damweiniau a fu bron digwydd yn cael eu cofnodi ac yr adroddir amdanynt ac y cânt eu rheoli'n briodol | 4.10 | Gwefan Adrodd amdano! |

## 4.1 Defnyddio dŵr a dŵr gwastraff

### 4.1.1 Defnyddio dŵr

Wrth ddefnyddio dŵr ar unrhyw safle Prifysgol Abertawe, dylid ystyried y canlynol:

[1] Ar gael ar gais gan y Tîm Cynaliadwyedd

- Defnyddiwch gyflenwadau amgen o ddŵr, er enghraifft tanciau o ddŵr glaw a systemau ailddefnyddio dŵr lle byddant ar gael
- Dewiswch opsiynau cyfarpar sy'n effeithiol o ran dŵr ar gyfer gweithgareddau adeiladu a chynhaliaeth
- Sicrhewch nad yw tapiau wedi'u gadael yn llifo oherwydd y gall hyn wastraffu hyd at chwe litr o ddŵr y funud
- Dywedwch wrth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau ar unwaith drwy eich cyswllt yn y brifysgol os bydd tapiau'n diferu, dŵr yn arllwys neu os gwelir gwastraff dŵr

### 4.1.2 Dŵr Gwastraff

Pan fydd gollyngiad dŵr gwastraffi'r draen, dylid dilyn y canlynol:

- **Gwybod ble byddwch chi'n arllwys dŵr:** Ar gampysau Singleton a'r Bae, mae'r Brifysgol wedi nodi'r holl lwybrau dŵr wyneb a draenio carthffrwd, sydd wedi'u nodi ar gynlluniau draenio safle'r campws
- **Peidiwch â gollwng dŵr wyneb i ddraeniau dŵr:** Nid oes hawl gan y Brifysgol i ollwng unrhyw beth ar wahân i ddŵr glaw i draeniau dŵr wyneb.
- Peidiwch â gadael i unrhyw beth heblaw dŵr i fynd i lawr y draen. Gall seimiau, olewon, paentiau a brasterau achosi rhwystrau yn y draeniau a phibellau carthffosydd wrth iddynt galedu, sy'n gallu achosi dŵr carthffosydd i ddod yn ôl i fyny'r draeniau.
- Gwiriwch y Daflen Data Diogelwch i sicrhau nad oes unrhyw ddeunyddiau peryglus yn cael eu gollwng i'r draen.
- Os ydych chi'n ymdrin ag olew neu gemegion, sicrhewch fod eich tîm yn gymwys o ran ymateb i arllwysiadau. Gweler Adran 4.3 am ragor o wybodaeth. Mae'r amser ymateb i arllwysiadau yn hanfodol gan fod gan arllwysiadau'r potensial i gael eu golchi i ddraeniau dŵr wyneb a'u rhyddhau'n uniongyrchol i gyrsiau dŵr a'r môr.

### 4.1.3 Cysyniadau

Bydd angen caniatâd arnoch chi gan Dŵr Cymru os ydych chi'n bwriadu arllwys cyfaint o ddŵr i ddraen lle mae unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Sy'n fwy na 1m$^3$ mewn diwrnod
- Mae'n cynnwys halogyddion sy'n beryglus i'r amgylchedd
- Nad yw â pH rhwng 6 a 9

Mae gwaharddiad llym yn erbyn golchi cerbydau ar safleoedd y Brifysgol. Os oes angen ardal ddynodedig arnoch chi, bydd rhaid gofyn am le dynodedig gan Ystadau a Rheoli Cyfleusterau a chael caniatâd gan Dŵr Cymru i ollwng dŵr.

E-bostiwch sustainability@abertawe.ac.uk. os oes angen 'Caniatâd Gollwng' gan Dŵr Cymru.

## 4.2 Defnyddio a storio deunyddiau peryglus

Mae'n hanfodol lleihau'r risg o arllwys neu ryddhau olew, tanwydd a chemegion ar ffurf hylif yn ddamweiniol wrth eu defnyddio, eu storio, eu cludo neu eu gwaredu. Mae arfer gorau yn cynnwys:

- Storio olew a chemegion eraill mewn ardal wedi’i chau sy’n ddiogel rhag fandaliaeth a lladrad.
- Dylid defnyddio byndiau fel rhagofal i gynnwys unrhyw hylif sy’n arllwys o gynwysyddion olew a chemegion. Rhaid i gyfaint net y bwnd fod yn 110% cyfaint y cynhwysydd/tanc mwyaf.
- Dylid sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar ffatri a ddefnyddir wrth ymdrin ag olew, tanwydd neu gemegion yn cael eu gwirio’r rheolaidd i sicrhau eu bod nhw mewn cyflwr da, gan gynnwys gwirio peipiau dŵr am ddirywiad, a phennau ac atodiadau’r peipiau i wirio nad ydynt wedi’u camsymud. Mae hyn yn cynnwys peipiau hydrolig mewn mannau symud pridd etc.
- Defnyddio amsugwyr a phadellau diferion fel rhagofal priodol wrth ymgymryd â thasgau sy’n cynnwys ymdrin ag olewon a hylifau eraill.
- Peidiwch â gadael peipiau olew neu bympiau heb oruchwyliaeth wrth eu defnyddio.
- Dylid cadw olewon a chemegion mor bell i ffwrdd â phosib o ddraeniau, cyrff dŵr a ffiniau.
- Dylid amddiffyn draeniau wyneb/dŵr stormydd yn ystod gweithrediadau risg uchel.
- Rhaid gorchuddio barilau ar baledi bwnd os cânt eu cadw y tu allan i atal y byndiau rhag llenwi â dŵr.

## 4.3 Ymateb i Arllwysiadau

Os bydd arllwys, mae’n hanfodol bod eich staff yn gymwys ac yn hyderus i ymateb i ddigwyddiad.

### 4.3.1 Atal arllwysiadau a pharatoi ar eu cyfer

- Mae pecynnau arllwysiadau ar gael, wedi’u haddasu i’r math o ddeunydd y gellid ei arllwys a’r cyfeintiau posib.
- Dylai’r holl staff sy’n rhan o gludo, defnyddio a/neu storio olew, tanwydd a chemegion fod yn gymwys yn y gweithdrefnau sy’n gysylltiedig â glanhau yn dilyn arllwysiadau a defnyddio pecynnau arllwysiadau.
- Er y dylid osgoi cludo, defnyddio neu storio cemegion, tanwydd neu olew yn agos i ddraeniau dŵr wyneb lle bo’n bosib, os bydd angen, dylai’r contractwr ddarparu gorchuddion draen.

### 4.3.2 Cymorth mewn achos o arllwys

- Os ceir arllwysiad mewn man sy’n agored i staff, myfyrwyr neu’r cyhoedd, gallwch gysylltu â’r tîm Diogelwch i gau’r ardal wrth ei glanhau

### 4.3.3 Adrodd am arllwysiadau

Rhowch wybod i sustainability@abertawe.ac.uk ar unwaith os caiff unrhyw gemegion, tanwydd neu olew eu harllwys ar ddamwain i ddraen dŵr wyneb neu dir.

Cwblhewch adroddiad am ddigwyddiad andwyol (Adran 4.10) ar wefan y Brifysgol ar gyfer cofnodion swyddogol.

#### 4.3.4 Gwaredu deunyddiau sy'n cael eu harllwys

Rhaid trin unrhyw ddeunydd a ddefnyddiwyd i lanhau'r arllwys fel gwastraff peryglus. Dylid cyflwyno'r Nodyn Llwyth Gwastraff Peryglus (HWCN) i'r tîm Cynaliadwyedd i ddangos bod y deunydd difwynedig sydd wedi'i lanhau wedi'i waredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio.

### 4.4 Rheoli Gwastraff

#### 4.4.1 Pob contractwr

Os ydych chi'n gyfrifol am brosiect ar y safle neu wastraff sy'n gysylltiedig â gweithrediadau, rhaid cytuno ar ffyrdd priodol o waredu ar y cyd â'ch cynrychiolydd prifysgol a'r Tîm Cynaliadwyedd cyn dechrau'r gwaith.

Bydd contractwyr yn gyfrifol am waredu'r holl wastraff sy'n cael ei greu gan eu gwaith ar y campws. Ni ellir defnyddio biniau gwastraff allanol y Brifysgol gan gontractwyr i waredu unrhyw wastraff o brosiectau. Bydd peidio â chydymffurfio â hyn yn arwain at ymchwiliad gan y Brifysgol.

Rhaid darparu'r Brifysgol â'r holl Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff (WTN) a Nodiadau Llwyth Gwastraff Peryglus (HWCN) drwy gyfeiriad e-bost estates-waste@abertawe.ac.uk  Rhaid cwblhau WTN a HWCN. Bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn anfon cais am ragor o wybodaeth os bydd data ar goll neu'n anghywir.

#### 4.4.2 Sgipiau

Os bydd angen sgip ar y safle arnoch, rhaid dilyn y 'weithdrefn sgipiau a chyfnewid sgipiau' sydd ar gael ar wefan Cynaliadwyedd. Ni all sgipiau ddod ar y safle heb fod mathau perthnasol o awdurdodaeth yn eu lle. Rhaid bod yr holl sgipiau yn rhai sydd wedi'u cau a rhaid symud sgipiau cyn 8am yn ystod adeg y tymor.

#### 4.4.3 Ymdrin â gwastraff peryglus

Os ydych chi'n ymdrin â deunyddiau peryglus, gan gynnwys cemegion, olew, tanwydd neu ddeunyddiau difwynedig sy'n beryglus o labordai/gweithdai, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Sicrhau storio diogel o ddeunyddiau peryglus sy'n cydymffurfio
- Ni chaniateir rhoi gwastraff yr ystyrir ei fod yn beryglus ym miniau gwastraff y Brifysgol

Os bydd angen arweiniad/cymorth arnoch wrth waredu gwastraff peryglus sy'n gysylltiedig â phrosiect, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk.

### 4.5 Defnyddio ynni'n effeithiol

Bydd contractwyr Prifysgol Abertawe bob amser yn anelu at leihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â defnyddio ynni drwy wella arferion gweithio a buddsoddi mewn technolegau sy'n arbed ynni. Gan ategu gofynion penodol contractau a DPAau, bydd contractwyr Prifysgol Abertawe yn:

- Gweithio'n rhagweithiol gyda'ch gweithlu i wreiddio ymddygiad effeithiol a chynaliadwy yn eu gweithgareddau

- Dylid diffodd offer a cherbydau sy'n defnyddio ynni pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Dylid defnyddio offer, cyfarpar a nwyddau treuliadwy, sy'n ynni-effeithiol, er enghraifft wrth oleuo a gwresogi, e.e. LED
- Dylid adrodd am osodiadau diffygiol neu sy'n aneffeithiol o ran y defnydd o ynni wrth Ystadau a Rheoli Cyfleusterau, e.e. gall goleuadau barhau i ddefnyddio ynni hyd yn oed pan fyddant wedi torri
- Dylid gosod falfiau rheiddiaduron thermostatig a'u gosod i uchafswm o 3.
- Dylid diffodd y gwres ar ôl gweithio sifft, os yw'n rhy boeth, os nad yw'r lle'n cael ei ddefnyddio a chyn y penwythnos a chyfnodau o wyliau
- Caewch bob ffenestr pan fyddwch yn gadael eich ystafell neu'ch gweithfan
- Cadwch ddrysau a ffenestri ar gau mewn mannau sy'n oeri'r awyr
- Dylech osgoi argraffu, a dim ond  argraffu dogfennau pan fydd yn wirioneddol angenrheidiol a defnyddio dulliau electronig i gyfathrebu â staff Prifysgol Abertawe
- Dylid lleihau teithio mewn cerbydau i'r gwaith drwy rannu ceir, defnyddio teithio llesol (megis beicio neu gerdded) neu ddefnyddio galwadau fideo (e.e. Zoom neu Teams)
- Defnyddiwch drydan sy'n 100% tariff gwyrdd lle bo modd
- Chwiliwch am gyfleoedd i ddefnyddio ynni carbon isel ac adnewyddadwy lle bo modd

## 4.6 Allyriadau i'r aer

### 4.6.1 Allyriadau o gerbydau, ystafelloedd ffatri a chyfarpar

Os ydych chi'n defnyddio cerbydau, offer a/neu ystafelloedd ffatri ar y safle sy'n creu nwyon llosg, rhaid gwneud y canlynol:

- Gwasanaethu a chynnal a chadw offer yn rheolaidd i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n effeithiol a bod allyriadau i'r aer mor ddiogel â phosib
- Peidiwch â gadael peiriannau'n segur. Dylech chi eu diffodd os nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Pan fydd problem gydag offer, ystafell ffatri neu gerbyd, e.e. maent yn rhyddhau mwg du, rhaid rhoi'r broses ganlynol ar waith:
- Dylid diffodd y cyfarpar
- Dylid trefnu gwasanaethu/gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr offer
- Ni ddylid defnyddio'r offer, yr ystafelloedd ffatri neu'r cerbyd eto nes y bydd y gwaith gwasanaethu/cynnal a chadw wedi'i gwblhau

### 4.6.2 Nwyon wedi'u ffliworeiddio

Mae'r Brifysgol yn rheoli ac yn cofnodi'r defnydd o nwyon wedi'u ffliworeiddio (nwy F) yn rhagweithiol, yn unol â gofynion deddfwriaethol. Os yw eich gwaith yn debygol o gynnwys nwy F, gan gynnwys cynnal a chadw neu brofi cyfarpar, rhaid dilyn a chwblhau'r canlynol lle bo'n angenrheidiol:

- Nodyn Canllaw Technegol 003 Nwy F
- Nodyn Canllaw Technegol 003 Nwy F Atodiad 3

## 4.7 Caffael Cynaliadwy

Wrth brynu cynnyrch neu wasanaethau Prifysgol Abertawe, bydd contractwyr yn:

- Osgoi prynu offer, cynnyrch neu wasanaethau newydd lle maent eisoes ar gael, hyd yn oed pan fydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad pellach; Gweithio gyda'ch cyswllt yn y Brifysgol i nodi dichonoldeb.
- Ailddefnyddio cynnyrch sydd eisoes ar gael a hysbysu cysylltiadau yn y Brifysgol pan fydd cyfle i ailddefnyddio yn hytrach na gwaredu, e.e. celfi, TG, dodrefn meddal a chaled.
- Lleihau effaith amgylcheddol cynnyrch neu wasanaethau drwy:
    - Brynu deunyddiau sy'n llai peryglus, a wnaed mewn ffordd sy'n defnyddio llai o ynni neu ddeunyddiau crai a/neu mewn ffordd fwy moesol. Er enghraifft, cynnyrch a wnaed gyda chanran uwch o gynnwys neu wasanaethau sydd wedi'u hailgylchu, neu sy'n defnyddio ffynonellau o ynni ailgylchadwy.
    - Prynu offer effeithlon sy'n defnyddio llai o ynni neu ddŵr na'r hyn sydd eisoes yn bodoli neu ddefnyddio ail law.
    - Prynu dim ond nifer y deunyddiau y bydd eu hangen, yn hytrach na phrynu gormod.
    - Lleihau dosbarthiadau drwy roi archebion mewn grwpiau, cyfyngu ar becynnu neu ofyn am fersiynau amgen y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na defnyddio plastigion defnydd un tro.
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau cydymffurfio rheoleiddio, er enghraifft, mae angen trwyddedau i brynu neu ddefnyddio deunyddiau penodol, neu mae angen eu defnyddio mewn ffordd benodol gan unigolion cymwys, e.e. pla-laddwyr, nwyon wedi'u ffliworeiddio neu gemegion peryglus
- Dilynwch Bolisi Cynaliadwyedd y Brifysgol, gan ystyried yn benodol y nwyddau sy'n berthnasol i'r contract neu'r gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan 'Caffael'.

## 4.8 Gwarchod cynefinoedd a bywyd gwyllt lleol

### 4.8.1 Campws y Bae

Lleolir Campws y Bae Prifysgol Abertawe wrth ymyl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Twyni Crymlyn, sef ardal ddynodedig sy'n llawn bioamrywiaeth ac a warchodir gan y gyfraith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O ganlyniad, mae amrywiaeth hynod gyfoethog o blanhigion a bywyd gwyllt a warchodir yn byw yn y safleoedd hyn ac mae difrodi SoDdGA yn drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Sylwer ar y canlynol:

- Ni chaniateir gwaith yn y SoDdGA heb gymeradwyaeth benodol y Swyddog Bioamrywiaeth, y mae'n rhaid ei chael cyn dechrau ar unrhyw waith. Mae'n debygol y bydd hefyd angen cael caniatâd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru (gall y Swyddog Bioamrywiaeth roi cyngor am hyn).
- Gellir defnyddio'r ardal yn rhad ac am ddim at ddibenion ei mwynhau ond sylwer ar y byrddau gwybodaeth wrth fynedfeydd y SoDdGA.

### 4.8.2 Parc Singleton

Mae campws Parc Singleton  mewn parcdir sy'n cynnig cyfoeth o rywogaethau gwahanol o blanhigion a bywyd gwyllt a warchodir ar y safleoedd hyn.

### 4.8.3 Rhywogaethau a Warchodir

Tra byddwch yn gwneud gwaith yn y Brifysgol, mae'n bosib y byddwch yn dod ar draws rhywogaethau a warchodir, sy'n cynnwys:

- **Ystlumod (unrhyw rywogaeth):**
    - Rydym yn gwybod bod ystlumod yn defnyddio sawl adeilad yn y Brifysgol, yn enwedig yr Abaty a Wallace. Mae ystlumod a'u clwydi wedi'u gwarchod yn llym gan y gyfraith ac mae'n drosedd eu difrodi neu darfu arnynt heb drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- **Adar (gan gynnwys gwylanod):**
    - Mae adar yn nythu ar lawer o'r toeau rhwng mis Ebrill a mis Awst. Sylwer y bydd gwylanod yn amddiffyn eu nythod a'u hadar bach yn erbyn yr hyn maent yn eu hystyried i fod yn fygythiadau. Pryd bynnag y bo modd, dylid trefnu mynediad i'r to y tu allan i'r tymor nythu ond, os na fydd modd osgoi hyn, dylid gwneud pob ymdrech i osgoi tarfu ar adar sy'n nythu yn ystod y cyfnod hwn.
    - Mae amrywiaeth eang o adar yn nythu mewn coed a llwyni ar y campws hefyd, a dylid trefnu unrhyw waith sy'n debygol o ddifrodi neu darfu ar ardaloedd o'r fath y tu allan i'r cyfnod nythu (sef mis Mawrth tan fis Awst).

Os byddwch chi'n canfod neu'n tarfu ar rywogaeth a warchodir, rhaid dilyn y broses ganlynol:

- Peidiwch â symud na chyffwrdd â'r rhywogaeth a warchodir
- Dewch â gwaith yn yr ardal honno i ben
- Cysylltwch ag Ystadau a Rheoli Cyfleusterau i'w hysbysu am leoliad y rhywogaeth a warchodir, gan ofyn am gymorth gan y Swyddog Bioamrywiaeth

### 4.8.4 Rhyngweithio â bioamrywiaeth

Tynnir sylw contractwyr at bwysigrwydd cynllunio eu gwaith i sicrhau na chaiff y gyfraith parthed bywyd gwyllt ei thorri, bod yr effaith leiaf bosib ar fywyd gwyllt a bod amser i gael trwyddedau rhywogaethau a warchodir wedi'i gynnwys mewn cynlluniau. Gellir anfon unrhyw ymholiadau at Swyddog Bioamrywiaeth y Brifysgol.

Os byddwch chi'n rhagweld y bydd eich gwaith neu'ch gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd lleol (hyd yn oed yn rhagweithiol), cysylltwch â'r Swyddog Bioamrywiaeth i gael rhagor o gymorth ac arweiniad.

## 4.9 Smygu a smygu e-sigaréts

Fel contractiwr ar y campws, rhaid i chi sicrhau bod yr holl staff, is-gontractwyr neu ymwelwyr yn cydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- Rhaid i bobl sy'n dewis smygu, gan gynnwys smygu e-sigaréts, wneud hynny mewn parthau dynodedig, a nodir yn glir, ar y campws (gweler y map ar ein gwefan) fel y gallant smygu heb achosi risg o smygu goddefol.
- Ac eithrio'r parthau dynodedig hyn, mae smygu wedi'i wahardd ar safleoedd Prifysgol Abertawe, y tu mewn i'w hadeiladau, ar ei thiroedd neu mewn cerbydau wedi'u llogi, eu hurio neu sy'n eiddo i'r Brifysgol.
- Rhaid i bobl sy'n dewis smygu, gan gynnwys smygu e-sigaréts, gadw pellter o 2m o bobl eraill wrth smygu, i leihau'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â smygu goddefol.
- Rhaid rhoi bonion sigaréts a gwastraff e-sigaréts yn y biniau priodol ac ni chaniateir eu taflu fel sbwriel.
- Ni ellir gwefrio cyfarpar e-sigaréts ar safleoedd y Brifysgol na mewn cerbydau oherwydd y risg o dân cysylltiedig.

Sylwer: er mwyn sicrhau campws sy'n iach ac yn gynaliadwy, rydym yn annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr eraill â'r brifysgol yn gwrtais i herio'r rhai hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'n polisi o gampysau di-fwg a nodi'n gwrtais lle mae parthau smygu dynodedig.

Mae'r Brifysgol yn annog ymagwedd gefnogol at y rhai hynny sy'n dymuno rhoi'r gorau i smygu. Cyfeirio at y Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio.

### 4.10 Adrodd am ddigwyddiadau andwyol

Mae hi dim ond yn bosib i ni ddysgu o ddigwyddiadau andwyol a'u hatal yn y dyfodol os adroddir amdanynt. Gofynnwn i chi ddweud wrthym am y digwyddiadau andwyol hyn drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein[2] neu drwy gysylltu â'ch cynrychiolydd prifysgol am arweiniad.

## 5 Monitro ac Adrodd

Fel rhan o achrediad ISO 14001:2015 y Brifysgol, cynhelir arolygiadau ac archwiliadau ar draws y safle. Gall contractwyr hir dymor sy'n gweithio ar safleoedd y Brifysgol fod yn destun y rhain, fel a ganlyn:

- **Arolygiadau:** Archwiliadau ad hoc i sicrhau bod gweithrediadau'n cydymffurfio â gweithdrefnau'r Brifysgol. Rhoddir o leiaf 24 awr o rybudd i'r contractwr. Caiff unrhyw ganfyddiadau eu hadrodd i'r contractwr yn ystod archwiliadau, ac yn ysgrifenedig o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl yr archwiliad.
- **Archwiliadau:** Fel rhan o'r amserlen archwilio fewnol flynyddol, gellir archwilio contractwyr ar sail cymalau a themâu amgylcheddol/cynaliadwyedd allweddol ISO 14001:2015. Rhoddir o leiaf fis o rybudd i'r contractwr. Darperir adroddiad i'r contractiwr sy’n rhoi manylion am ganfyddiadau'r archwiliad o fewn pymtheng niwrnod ar ôl yr archwiliad.
- **Ymchwiliad i ddigwyddiadau andwyol:** Pan geir digwyddiad andwyol, efallai y bydd ymchwiliad ychwanegol gan y Tîm Cynaliadwyedd, a bydd hwn

[2] https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/diogelwch-ar-y-campws-/iechyd-a-diogelwch/report-it/

yn dibynnu ar lefel difrifoldeb y digwyddiad. Caiff adroddiad ei lunio a'i anfon at y contractiwr gyda chamau gweithredu ac unrhyw ganfyddiadau eraill sy'n deillio o'r digwyddiad.

# 6 Cysylltiadau yn y Brifysgol

Gellir anfon unrhyw geisiadau am gynaliadwyedd i'r canlynol:

- Ymholiad am gynaliadwyedd yn gyffredinol neu EMS: **sustainability@abertawe.ac.uk**
- Ymholiad gwastraff: Estates-waste@abertawe.ac.uk
- Ymholiad bioamrywiaeth neu fywyd gwyllt: wildlife@abertawe.ac.uk

Ar gyfer manylion cyswllt cyffredinol, gweler hefyd tudalennau'r Tîm Cynaliadwyedd.

# 7 Effeithiau a chamau gweithredu yn erbyn diffyg cydymffurfiaeth

Gallai methu cydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at:

- Fethu cydymffurfio â gofynion EcoCampus a safon ISO 14001:2015.

Mae peidio â dilyn y weithdrefn hon yn cael ei drafod yn y weithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth a Chamau Cyweiriol.**

# 8 Rheoli Fersiwn

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddaru |
|---|---|---|
| 29/06/2017 | 1 | Dogfen newydd |
| 10/10/2018 | 2 | Adran 8 wedi'i hychwanegu<br>Mân-newidiadau fformatio a gwybodaeth wedi'i diweddaru<br>Y rhestr o gysylltiadau wedi'i diweddaru |
| 17 Awst 21 | 3 | Wedi cwblhau diweddariad |